## Cwestiynau ar gyfer y Grawys

**Darllen Ioan 3:1–17**

**Myfyrdod**
Arglwydd,
Mae'r Grawys yn adeg dda i ofyn cwestiynau.
Ond yn aml mae holi yn arwain at fwy o holi.
Daeth Nicodemus,
    arweinydd yr Iddewon,
    athro'r bobl,
    ceisiwr arwyddion Duw,
    atat gyda chwestiwn.
Rhoddaist ateb iddo: rhaid iddo gael ei eni o'r newydd.
Ond ni ddeallodd.
    Daeth Nicodemus,
    dyn a anwyd o gnawd,
    dyn mewn oed,
    atat gyda chwestiwn arall.

Rhoddaist ateb iddo: rhaid iddo gael ei eni o ddŵr a'r Ysbryd.
Ond ni ddeallodd hynny chwaith.
    Daeth Nicodemus –
    dyn oedd yn dyheu am ateb –
    atat eto gydag un cwestiwn mawr arall.

Rhoddaist ateb iddo: rhaid iddo dystiolaethu am fywyd, marwolaeth a bywyd newydd Mab y Dyn.

Ac fel Nicodemus, yr ydym ninnau yn ei chael hi'n anodd deall.
    Arglwydd, cynorthwya ni i ofyn cwestiynau,
    i ni gael deall,
    a chredu,
    fel y bydd i ni gael ein hachub.

***Llawlyfr Gweddi 2004–2005***